



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Diweddariad Map Rhwydwaith Teithio Llesol 2026

Cwestiynau Cyffredin

<p>Beth yw'r ATNM?</p>	<p>Offeryn cynllunio yw'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNM) sy'n dangos y llwybrau cerdded, olwynion a beicio presennol ac yn y dyfodol mewn ardal. Mae'n helpu i nodi lle mae angen gwelliannau i'w gwneud yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy cyfleus i bobl deithio yn egnïol ar gyfer teithiau bob dydd, fel cyrraedd y gwaith, i'r ysgol neu wasanaethau lleol.</p> <p>Mae'n ofyniad statudol i awdurdodau lleol gynhyrchu a chadw ATNM o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), gan sicrhau bod teithio llesol yn cael ei gynllunio a'i flaenoriaethu yn briodol.</p>
<p>Beth yw 'Llwybr y Dyfodol' a sut alla i weld beth fydd dyluniad y llwybr?</p>	<p>Mae Llwybrau'r Dyfodol yn dangos lle mae gwelliannau i gerdded, olwynion a beicio wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol. Ar y cam hwn, dim ond llinellau ar fap sy'n dangos lleoliad cyffredinol y llwybr ydynt - nid oes dyluniadau manwl eto.</p> <p>Gallai gwelliannau amrywio o newidiadau mwy fel traciau beicio newydd, i welliannau llai fel croesfannau gwell, neu feicio ar y ffordd fwy diogel.</p> <p>Mae'r llwybrau hyn yn rhan o gynllun tymor hir yn hytrach na phrosiectau sydd wedi'u cadarnhau. Wrth i bob llwybr gael ei symud ymlaen, bydd dyluniadau'n cael eu datblygu fesul cam, gyda chyfleoedd i'r cyhoedd weld cynigion dylunio a rhoi adborth.</p>
<p>Beth yw 'Llwybr Presenol'?</p>	<p>Llwybr cerdded, olwynion neu feicio yw Llwybr Presennol sydd eisoes ar waith ac sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ei ddefnyddio. Mae'r llwybrau hyn yn rhan o'r rhwydwaith teithio llesol presennol a gallant gynnwys llwybrau troed, llwybrau a rennir, traciau beicio a strydoedd tawelach.</p> <p>Er mwyn cael ei gynnwys ar haen Llwybrau Presennol Map y Rhwydwaith Teithio Llesol, rhaid asesu llwybr drwy broses archwilio a sicrhau sgôr ddigonol yn erbyn safonau Llywodraeth Cymru. Pan nad yw llwybr yn bodloni'r safon ofynnol, gellir nodi gwelliannau er mwyn helpu i'w godi i'r lefel angenrheidiol.</p>
<p>Ar gyfer pwy mae'r rhwydwaith o llwybrau?</p>	<p>Mae'r rhwydwaith ar gyfer pawb, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddwyr cadeiriau olwyn a chymorth symudedd • Pobl yn cerdded neu'n rhedeg • Beicwyr o bob gallu • Plant, teuluoedd a phobl hŷn <p>Blaenoriaeth allweddol yw sicrhau bod llwybrau yn gynhwysol ac yn hygyrch, felly mae mwy o bobl yn teimlo'n hyderus yn dewis teithio llesol.</p>

<p>Pam mae'r Cyngor yn diweddarau ac yn ymgynghori ar y map?</p>	<p>Drwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae'r cyngor yn gyfrifol am gynhyrchu, cynnal a diweddarau Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ar draws y fwrdeistref. Mae'r mapiau'n bwysig oherwydd ein bod yn gallu gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn i weithredu'r cynigion ar fap y Rhwydwaith Teithio Llesol. Os nad yw llwybrau ar y map, nid ydynt yn gymwys i gael cyllid.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn gofyn am eich barn er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith: • Yn adlewyrchu sut mae pobl yn teithio mewn gwirionedd • Yn nodi lle mae llwybrau yn teimlo'n anniogel neu'n anhy • Creu cysylltiadau gwell rhwng cymunedau a chyrchfannau allweddol <p>Mae eich adborth yn helpu i sicrhau bod y rhwydwaith yn gynhwysol, yn ddefnyddiadwy ac yn berthnasol i bobl leol, nid yn seiliedig ar asesiadau technegol yn unig.</p>
<p>Pam nad yw fy awgrym o'r ymgysylltiad blaenorol wedi'i gynnwys yn yr ATNM wedi'i ddiweddarau?</p>	<p>Yn anffodus, ni ellid cynnwys pob awgrym yn yr ATNM wedi'i ddiweddarau. Adolygwyd yr holl lwybrau a awgrymwyd yn ofalus, gan ystyried pa mor ymarferol ydynt i'w cyflawni ac a ydynt yn debygol o sicrhau cyllid. Mewn rhai achosion, ni ellid cynnwys llwybrau oherwydd cyfyngiadau corfforol neu oherwydd nad oeddent yn bodloni meini prawf ariannu.</p> <p>Mae rhai llwybrau a awgrymwyd i'w tynnu wedi'u cadw. Mae hyn oherwydd eu bod yn gysylltiadau pwysig yn y rhwydwaith ehangach, sy'n helpu i gysylltu lleoedd allweddol a'i gwneud hi'n haws i bobl deithio o amgylch Castell-nedd Port Talbot.</p>
<p>A ddylwn i ymateb eto os wyf eisoes wedi cymryd rhan y llynedd?</p>	<p>Fe wnaethon ni adolygu'r holl adborth o ymgysylltiad y llynedd yn ofalus, felly byddwch yn sicr bod eich sylwadau wedi'u cofnodi ac nad oes angen i chi gyflwyno ymateb arall os nad oes gennych unrhyw beth pellach i'w ychwanegu. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw sylwadau newydd ar y map wedi'i ddiweddarau, byddem yn croesawu'ch adborth yn fawr iawn.</p>
<p>Sut mae'r ATNM a theithio llesol yn cael ei ariannu?</p>	<p>Mae darparu'r ATNM o gynllunio i gyflwyno yn cael ei ariannu fel arfer drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Mae'n gronfa benodol o gyllid, sy'n golygu ei fod wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer y mathau hyn o brosiectau ac na ellir ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau eraill y cyngor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario ar wneud teithiau bob dydd yn fwy diogel, yn fwy hygyrch ac yn fwy cynaliadwy i bawb.</p>

<p>Sut mae llwybrau yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cyflwyno?</p>	<p>Mae Llwybrau'r Dyfodol ar yr ATNM yn cael eu hasesu gan ddefnyddio proses Blaenoriaethu Llwybrau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn edrych ar ystod o ffactorau, gan gynnwys faint o bobl sy'n debygol o ddefnyddio'r llwybr, pa mor dda y mae'n cysylltu cyrchfannau allweddol (megis ysgolion, gweithleoedd a chanolfannau lleol), a'r potensial i wella diogelwch a hygyrchedd. Caiff pob llwybr ei sgorio yn seiliedig ar y meini prawf hyn gan dîm Teithio Llesol Trafnidiaeth Cymru, ac mae'r rhestr a flaenoriaethir sy'n deillio o hyn yn helpu i lywio'r Cyngor ynghylch pa gynlluniau i'w bwrw ymlaen yn gyntaf pan fydd cyllid ar gael. Er bod blaenoriaethu yn helpu i arwain penderfyniadau, nid yw'n gwarantu pryd neu os bydd llwybr yn cael ei gyflawni, gan y bydd hyn hefyd yn dibynnu ar gyfleoedd ariannu a gwaith dylunio a dichonoldeb pellach.</p>
<p>A fydd hyn yn effeithio ar ffyrdd, traffig neu barcio?</p>	<p>Gall rhai cynlluniau yn y dyfodol gynnwys newidiadau i sut mae gofod ar y ffyrdd yn cael ei ddefnyddio.</p> <p>Ar y cam hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes unrhyw newidiadau manwl yn cael eu cynnig • Bydd unrhyw gynllun penodol yn destun dyluniad ac ymgynghoriad pellach <p>Mae hyn yn sicrhau bod effeithiau'n cael eu deall yn llawn a'u cydbwysu â manteision gwell diogelwch a hygyrchedd.</p>
<p>Sut alla i ddweud fy dweud?</p>	<p>Gallwch gymryd rhan drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau'r arolwg ar-lein • Mynychu digwyddiadau ymgysylltu (os oes ar gael) <p>E-bostio activetravel@npt.gov.uk a/neu gadw'r wybodaeth ddiweddaraf am ein tudalen we: Teithio Llesol - Cyngor CNPT i gael rhagor o wybodaeth ynghylch Teithio Llesol a Mapiau'r Rhwydwaith</p> <p>Rydym yn croesawu adborth yn arbennig ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhwystrau rhag cerdded, olwynion neu feicio • Lleoliadau sy'n teimlo'n anniogel neu'n anodd eu defnyddio • Cysylltiadau neu gyfleoedd ar goll i wella cysylltiadau <p>Am fwy o wybodaeth:</p> <p>E-bost: activetravel@npt.gov.uk</p> <p>Fel arall, gallwch ymweld â Gwefan Llywodraeth Cymru.</p>